Small Woods Association

Our Trees in Summer
Ein Coed yn Yr Haf

Cymdeithas Coedwigoedd Bychain

Oak

Our two species of native oak have leaves with wavy lobed edges and bear acorns as their fruit. The one, English Oak or Pendunculate Oak, has a leaf on a short stalk and an acorn on a long stalk or "penduncle". The other, Durmast Oak or Sessile Oak, has a leaf on a long stalk and an acorn on little or no stalk at all. The heartwood of the timber is strong and durable and for hundreds of years was used extensively in buildings and ships. The bark was used for tanning, a process in which animal skin is converted to leather. Today oak is still used for estate work such as fencing and for high quality joinery due to its attractive grain.

Y Dderwen

Dwy rywogaeth o'r dderwen frodorol a geir yn y wlad hon; arnynt, ceir dail ag ymylon llabedog, tonnog a ffrwythau o'r enw mes. Mae gan un, Derwen Loegr neu'r Dderwen Groesynnog, ddeilen ar goesyn byr a mesen ar goes hir neu'r 'goesog'. Mae gan y llall, y Dderwen Ddigoes, ddeilen ar goesyn hir a mesen ar fawr ddim coesyn o gwbl.
Mae rhuddin y pren yn galed a gwydn ac am ganrifoedd, fe'i defnyddiwyd yn helaeth mewn adeiladau a llongau. Defnyddiwyd y rhisgl ar gyfer barcio (trin), proses lle bydd crwyn anifeiliaid yn cael eu gwneud yn lledr. Heddiw defnyddir y dderwen ar gyfer gwaith ystadau fel ffensys a gwaith coed o safon uchel, oherwydd y graen deniadol sydd ganddi.



Ash

Ash comes into leaf later than most broadleaf trees but is one of the earliest to lose its leaves in autumn.

The leaves are compound, that is each whole leaf up to 30 cm long consists of 7 to 15 sharply toothed, taper pointed, leaflets on short stalks arranged symmetrically off a channeled main leaf stalk. The fruit is a winged seed, sometimes called a 'key', hanging in a cluster that often remains on the tree throughout the winter.

The timber is valued for tool handles and sports items where the ability to cope with shock loads is required. It is widely used in green woodworking where its ease of 'cleaving' (getting the pieces you want by splitting along the grain) is appreciated. It makes good firewood and can even be successfully burned without seasoning because its moisture content when alive is relatively low.

Yr Onnen

Bydd yr onnen yn deilio yn ddiweddarach na'r rhan fwyaf o goed llydanddail ond hi yw un o'r cynharaf i golli ei dail yn yr hydref.
Dail cyfansawdd sydd iddi; hynny yw, mae pob deilen gyfan hyd at 30cm o hyd yn cynnwys 7 i 18 o ddail bychain â dannedd miniog, pigfain ar goesynnau byrion wedi'u trefnu'n gymesur oddi ar brif ddeilgoes â rhychau arni. Hedyn ag adenydd yw'r ffrwyth, a elwir weithiau yn 'allwedd Mair', sy'n hongian mewn clwstwr sydd, yn aml, yn aros ar y goeden trwy gydol y gaeaf.
Mae cryn feddwl o'r pren ar gyfer gwneud coesau celfi a nwyddau chwaraeon lle mae gofyn iddynt ymdopi â sioclwythi. Gwneir defnydd helaeth ohono mewn gwaith coed gwyrdd oherwydd ei fod yn hawdd i'w hollti (cael y darnau sydd eu hangen arnoch trwy hollti ar hyd y graen). Mae'n gwneud coed tân da a gellir ei losgi hyd yn oed heb ei sychu am fod ei gynnwys lleithedd yn gymharol isel pan yw'r pren yn fyw.

Cherry

Wild cherry or Gean has a leaf that is sharply toothed, taper pointed and elliptical with a longish stalk. It is hairless above but downy below.

The fruit is a shiny red or purple cherry, edible though either bitter or sweet, which ripens in July. The bark is reddish brown and shiny with banding and peels horizontally in thin strips.

The timber is used in furniture making, as a veneer, and in turnery. However the tree is susceptible to canker disease which degrades its timber value.

Y Pren Ceirios

Mae gan y Geiriosen neu'r Sirianen Ddu ddeilen hirgron, bigfain, â dannedd miniog, sy'n tyfu ar goesyn gweddol hir. Mae ochr uchaf y ddeilen yn ddi-flew, ond oddi tanodd mae'n teimlo'n felfedaidd.
Ceirios coch neu biws sgleiniog yw'r ffrwyth, y gellir ei fwyta er ei fod yn felys neu chwerw; bydd yn aeddfedu ym mis Gorffennaf. Lliw browngoch sydd i'r rhisgl, sy'n sgleiniog a gyda bandiau arno y gellir eu pilio yn llorweddol mewn stribedi main. Defnyddir y pren, fel argaen, i wneud dodrefn, ac mewn turnwriaeth. Fodd bynnag, mae'r goeden yn dueddol i gael cancr, sy'n gostwng ei gwerth fel pren.

Hazel

Rarely grown to tree size, hazel is common amongst the woodland understory as a multi stemmed bush. When managed as coppice it produces material for many green wood items e.g. hurdles, wattles, baskets, pea sticks, bean rods and 'heatherings' (to bind the tops of hedgelaying stakes).

The leaf is typically up to 10 cm long and across, with a toothed edge, a pointed tip and a hairy surface. The leaves are arranged alternately on the twig. The fruit is the hazel-nut, its shell in a leafy cup with both being green then turning brown in the autumn.

Y Gollen

Prin y bydd yn tyfu i faint coeden; mae'r gollen yn gyffredin ymysg isdyfiant y coetir, fel llwyn amlgoes. Os caiff ei choedlannu, bydd yn creu defnydd ar gyfer llawer o eitemau coed gwyrdd e.e. clwydi, plethwaith, basgedi, ffyn pys, ffyn ffa a rhwymau (clymu pennau'r polion gosod gwrychoedd).
Fel arfer bydd y ddeilen bigfain hyd at 10cm ar ei hyd ac ar draws, gydag ymyl danheddog a wyneb blewog. Bydd y dail wedi'u trefnu bob yn ail ar y brigyn. Cneuen farfog yw enw'r ffrwyth sy'n tyfu yn ei gragen mewn cwpan ddeiliog; gwyrdd yw'r ddau ohonynt cyn troi'n frown yn yr hydref.

Sycamore



Sycamore leaves are broad (up to 20cm), five lobed, coarsely toothed with a dark green upper surface and cast a heavy shade. Often they are afflicted with 'tar spots' caused by a fungus and by aphids that like the sweet sap and are responsible for the dropping of 'honeydew'.
The fruit is a double winged seed or 'key' hanging in profuse bunches with each pair at about right angles. Readily
dispersed by the wind they germinate easily making the sycamore a successful if not always well liked coloniser. Squirrels are inclined to strip the bark causing serious damage to the tree.
The timber is valued for kitchen equipment because it is free of taint and odour and for musical instruments such as the violin, especially if the grain is rippled.

Y Sycamorwydden



Mae dail y sycamorwydden yn llydan (hyd at 20cm), â phum llabed, dannedd bras ag wyneb uchaf o wyrdd tywyll; byddant yn bwrw cysgod trwm. Yn aml, bydd "smotiau tar" ar y dail, a achosir gan ffwng a gan bryfed gwyrdd sy'n hoffi'r sudd melys a hwy sy'n gyfrifol am ollwng y 'mêl-gawod'.
Hedyn gydag asgell ddwbl neu 'allwedd Mair' yw'r ffrwyth, sy'n hongian mewn clystyrau toreithiog â hob pâr yn tyfu ar oddeutu ongl sgwâr. Fe'u cludir ar y gwynt i egino'n hollol ddidrafferth, sy'n golygu bod y sycamorwydden yn gytrefwr llwyddiannus iawn, os nad yr un mwyaf poblogaidd. Bydd gwiwerod yn tueddu i blicio'r rhisgl ac achosi niwed difrifol i'r goeden.
Rhoddir pris mawr ar y pren ar gyfer gwneud offer cegin am ei fod yn rhydd o staen ac arogl; fe'i defnyddir i wneud offerynnau cerdd hefyd fel y ffidil, yn enwedig os yw'r graen yn donnog.

Birch

Silver or Warty Birch is a slender tree that gives light shade. It has a white bark that peels, with black diamond shaped markings on it. It is a prolific pioneer and coloniser but is relatively short lived.

The leaves are small (to 3 cm) and almost triangular with toothed edges and a pointed tip. The fruit is a catkin.



The timber is suitable for construction work but is not durable unless treated with preservative which it readily absorbs. Other countries make good use of it (e.g. in the manufacture of plywood). Here birch has rarely been grown to produce the large clean straight trunks that would make such commercial exploitation possible.



Y Fedwen

Coeden denau sy'n rhoi cysgod ysgafn yw'r Fedwen Arian. Mae ganddi risgl gwyn sy'n pilio, â marciau siâp diemwnt arno. Mae'n arloeswraig a chytrefwraig doreithiog dros ben; serch hynny, cymharol fyr yw ei hoedl. Dail bychan pigfain sydd ganddi (hyd at 3cm), trionglog bron gydag ymylon danheddog. Enw'r ffrwyth yw cynffon oen bach. Mae'r pren yn addas ar gyfer gwaith adeiladu ond nid yw'n bren gwydn, oni bai iddo gael ei drin gyda chyffur cadw – sy'n cael ei amsugno'n rhwydd. Bydd gwledydd eraill yn gwneud defnydd da ohono (e.e. i wneud pren haenog). Yma, prin y cafodd coed bedw eu tyfu i gynhyrchu'r boncyffion syth mawr glân a fyddai'n gwneud menter masnachol o'r fath yn bosibl.

Alder

Alder grows in wet conditions that most other tree species could not tolerate. Its root nodules contain bacteria that enable it to fix nitrogen. The toothed leaves are slightly elongated, up to 10 cm long and 8 cm across. They are slightly sticky to begin with. The fruit is a woody cone about 2 cm long, initially green then going brown. The crown of the tree tends to be narrow.

Alder timber can be used for joinery. It was traditionally the wood chosen for clog making. It was, and still is associated with the manufacture of good charcoal being especially suited to gunpowder production.



Y Wernen

Bydd y wernen yn tyfu mewn mannau gwlyb na fyddai llawer mathau o goed eraill yn eu goddef. Yn nodylau ei gwraidd mae bacteria sy'n ei galluogi i sefydlogi nitrogen. Ychydig yn hirfain yw'r dail danheddog, hyd at 8cm ar draws a 10cm o hyd. Ar y dechrau, maent fymryn bach yn ludiog. Côn (mochyn coed) prennaidd yw'r ffrwyth tua 2cm o hyd, yn wyrdd i ddechrau cyn troi'n frown. Tuedda coron y goeden i fod yn gul.

Gellir defnyddio pren y wernen ar gyfer gwaith coed. Yn draddodiadol, hwn oedd y pren a ddewiswyd i wneud clocsiau. Roedd yn gysylltiedig, ac mae hynny'n wir hyd heddiw, â gwneud siarcol da am ei fod yn arbennig o addas ar gyfer gwneud powdr gwn.



Holly

Holly is a native evergreen often found as a smaller tree. The leaves are dark green and waxy above, lighter green beneath, with one or more sharp prickles. The fruit is a berry, green at first turning blood red later.

The timber is used for turnery and decorative inlay of furniture. The foliage is popular as a decoration at Christmas especially if the berries remain, though as they are an important source of food for birds too they may be gone. Farm stock used to graze on holly in the winter.

Y Gelynnen

Coeden fythwyrdd frodorol yw'r gelynnen, ac yn aml bydd yn tyfu'n goeden fach. Mae'r dail yn wyrdd tywyll a chwyraidd ar yr ochr uchaf, ac yn wyrdd goleuach oddi tanodd, gydag un neu ragor o bigau miniog. Aeron yw'r ffrwythau, o liw gwyrdd sy'n troi'n fflamgoch yn ddiweddarach.

Defnyddir y pren ar gyfer turnwriaeth a saddurn addurniadol ar ddodrefn. Mae'r dail yn boblogaidd fel addurn adeg Y Nadolig yn enwedig os yw'r aeron yn aros arnynt; serch hynny, am eu bod yn fwyd pwysig i'n hadar mân, efallai y byddant wedi diflannu! Roedd anifeiliaid y fferm hefyd yn arfer pori ar y gelynnen yn y gaeaf.